

## Atodiad A

### Ystadegau

Tabl 1. Nifer y rhaglenni Dysgu Prentisiaethau fesul grŵp oedran, rhyw a math o raglen yn 2010/11

Grŵp oedran	Rhyw	Prentisiaethau Modern	Prentisiaethau Modern Sylfaenol	Diploma Sgiliau Modern
Dan 16 oed	Gwrywod	*	10	0
	Benywod	*	15	0
16 oed	Gwrywod	65	455	0
	Benywod	5	285	0
17 oed	Gwrywod	280	1015	0
	Benywod	75	600	*
18 oed	Gwrywod	800	975	0
	Benywod	260	795	5
19 oed	Gwrywod	985	725	5
	Benywod	390	755	10
20 i 24 oed	Gwrywod	2680	1985	40
	Benywod	1945	2520	175
25 i 49 oed	Gwrywod	2545	3535	410
	Benywod	5395	5555	1200
50 i 64 oed	Gwrywod	200	570	65
	Benywod	800	1220	205
65 oed a throsodd	Gwrywod	*	10	*
	Benywod	10	10	*
Cyfansymiau		<b>16,450</b>	<b>21,035</b>	<b>2,115</b>

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf a cheir \* yn lle rhifau rhwng 1 a 4.

Tabl 2. Nifer y rhaglenni Dysgu Prentisiaethau fesul grŵp oedran, rhyw a math o raglen yn 2006/07

Grŵp oedran	Rhyw	Prentisiaethau Modern	Prentisiaethau Modern Sylfaenol	Diploma Sgiliau Modern
Grŵp oedran	Gwrywod	9240	13820	880
	Benywod	10580	16645	2000
Dan 16 oed	Gwrywod	20	10	0
	Benywod	0	10	0
16 oed	Gwrywod	135	725	0
	Benywod	20	565	0
17 oed	Gwrywod	460	1505	0
	Benywod	125	1120	0
18 oed	Gwrywod	980	1610	0
	Benywod	340	1295	*
19 oed	Gwrywod	1130	1115	10
	Benywod	470	1160	*
20 i 24 oed	Gwrywod	3020	3040	60
	Benywod	2270	3340	150
25 i 49 oed	Gwrywod	3210	5120	695
	Benywod	6480	7740	1460
50 i 64 oed	Gwrywod	280	685	115
	Benywod	865	1405	375
65 oed a throsodd	Gwrywod	0	10	0
	Benywod	5	10	10
Cyfansymiau		<b>19820</b>	<b>30465</b>	<b>2880</b>

(Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf a cheir \* yn lle rhifau rhwng 1 a 4.)

## Sectorau Galwedigaethol

Y ganran fwyaf o raglenni prentisiaethau i gael eu cyflawni yn 2006/07 oedd:

- Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus **20%**
- Gweinyddu Busnes **16%**
- Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid **15%**
- Adeiladu **10%**.
- Peirianeg **10%**

Y ganran fwyaf o raglenni prentisiaethau i gael eu cyflawni yn 2010/11 oedd:

- Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus **28%**
- Gweinyddu Busnes **15%**
- Adeiladu **12%**
- Peirianeg **10%**
- Manwerthu a Gwasanaeth Cwsmeriaid **10%**


## Proffil Oedran

Y ganran o brentisiaid 25 oed a throsodd yn 2010/11 oedd 55% o'i chymharu â 54% yn 2006/07. Mae hyn yn bennaf yn adlewyrchu'r galwadau gan gyflogwyr ac amodau'r farchnad lafur, ar adeg pan oedd angen i gyflogwyr uwchsgilio'u gweithlu i ennill mantais gystadleuol yn y farchnad.

## Y Rhaniad rhwng y Rhywiau

Ar hyn o bryd, yn rhaglenni dysgu prentisiaethau 2010/11 mae 17,365 o wrywod a 22,235 o benywod; mae hynny'n wahanol i'r ffigurau ar gyfer 2006/07 sy'n dangos bod 23,940 o wrywod a 29,225 o benywod.

Siartiau – yn dangos y rhaniad rhwng gwrywod/benywod.



### **Cyfraddau Llwyddo Fframweithiau**

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae niferoedd y rhaglenni dysgu prentisiaethau wedi gostwng o 53,165 yn 2006/07 i 39,600 yn 2010/11. Y prif reswm am hyn yw'r cynnydd yn ansawdd ac ystod y prentisiaid yng Nghymru a gwell cyfraddau llwyddo; cyflawnodd 80% o'r ymadawyr yn 2009/10 dystysgrif brentisiaeth lawn. Mae hyn yn golygu bod prentisiaid yn dysgu am gyfnod hwy, ac yn ennill ystod o sgiliau a set lawnach o gymwysterau sy'n bodloni anghenion cyflogwyr a dyheadau prentisiaid, waeth beth fo'u hoedran. Yn ystod 2010/2011 mae cyfradd llwyddo'r fframweithiau yn gyffredinol wedi gwella eto fyth ac wedi cyrraedd 82%.

Cyfraddau llwyddo'r fframweithiau o 2006 i 2010

	<b>Prentisiaethau Modern Sylfaenol</b>	<b>Prentisiaethau Modern</b>	<b>Wedi'u cyfuno</b>
2006/07	58%	48%	54%
2007/08	68%	63%	66%
2008/09	76%	73%	75%
2009/10	81%	80%	80%
2010/11	81%	83%	82%